

Gair Bywyd

Letizia Magri

Tachwedd 2018

Mae angen i ni 'gau allan' pob sŵn allanol os ydym ni am adnabod a chlywed ei lais, ei Ysbryd, sy'n gallu ein helpu i dorri drwy ein hofn ac agor drws ein calon.

Edrych! Dw i yma! Dw i'n sefyll wrth y drws ac yn curo. Os bydd rhywun yn fy nghlywed i'n galw ac yn dod i agor y drws, dof i mewn i rannu pryd o fwyd gyda nhw. (Datguddiad 3: 20).

Mae'n bosib ein bod yn clywed rhywun yn curo'r drws yn aml. Efallai mai rhywun yn danfon rhywbeth sydd yno, neu gymydog neu un o ffrindiau ein plant. Ambell waith gall fod yn ddieithryn. Beth maen nhw eisiau? Ydy hi'n syniad da agor y drws i rywun dydyn ni ddim yn ei nabod?

Mae'r Gair Duw hwn, o Lyfr y Datguddiad, yn ein gwahodd i groesawu ymwelydd annisgwyl.

Dyma lyfr sy'n llawn gwybodaeth i Gristnogion. Ar yr achlysur hwn, roedd yr awdur yn ysgrifennu at yr eglwys yn Laodicea. Ysgrifennodd yn enw'r Arglwydd Iesu oedd wedi marw ac wedi codi o farw'n fyw oherwydd ei gariad at bob bod dynol. Roedd yr arweiniad awdurdodol a roddodd yn deillio o'r cariad hwn. Canmolodd y gymuned, gan eu cywiro a gofyn iddyn nhw fod yn agored i'r help pwerus roedd yr Arglwydd ei hun yn barod i'w roi, cyhyd â'u bod yn barod i adnabod ei lais ac 'agor y drws'.

Edrych! Dw i yma! Dw i'n sefyll wrth y drws ac yn curo. Os bydd rhywun yn fy nghlywed i'n galw ac yn dod i agor y drws, dof i mewn i rannu pryd o fwyd gyda nhw.

Digon tebyg yw pethau heddiw. Nawr, hefyd, mae gofyn i'r gymuned Gristnogol gyfan oresgyn ofn, rhaniadau ac ymdeimlad ffug o ddiogelwch, a chroesawu dyfodiad Iesu. Yn wir, mae'n dod atom bob dydd mewn 'gwisg' wahanol. Gallai hyn fod ar ffurf ein dioddefaint dyddiol, yr anawsterau rydym ni'n eu hwynebu wrth fod yn ffyddlon i'r Efengyl, neu heriau'n ymwneud â'n dewisiadau pwysig mewn bywyd. Yn bennaf oll, daw atom yn y bobl rydym ni'n cyfarfod â nhw o'n cwmpas.

Dyma wahoddiad hefyd i bob un ohonom 'dreulio amser' gydag Iesu mewn sgwrs bersonol, fel y byddech yn ei wneud wrth rannu bwrdd gyda ffrind ar noson dawel. Dyna'r amser gorau am sgwrs sy'n galw am fod yn agored a gwrando.

Mae angen i ni 'gau allan' yr holl sŵn allanol os ydym ni am adnabod a chlywed ei lais, ei Ysbryd, sy'n gallu ein helpu i dorri drwy ein hofn ac agor drws ein calon.

Ysgrifennodd Chiara Lubich am ei phrofiad hi: *'Rhaid i ni dawelu popeth oddi mewn i ni er mwyn darganfod llais yr Ysbryd. Mae angen i ni ei dynnu'n ofalus fel pe baem ni'n tynnu diemwnt o'r baw: ei lanhau, ei arddangos a'i rannu gyda phobl eraill ar yr adeg gywir, oherwydd Cariad yw hwn, ac mae Cariad i fod i gael ei roi. Mae fel tân, sy'n llosgi pan fydd yn cyffwrdd â gwellt neu ddeunydd arall. Os nad yw'n gwneud hyn, mae'n marw. Rhaid i Gariad dyfu ynom ni a gorlifo.'*

Dywedodd y Pab Francis: *'Rhodd yw'r Ysbryd Glân ... Mae'n dod i mewn i ni ac yn ein gwneud ni'n ffrwythlon, er mwyn i ni allu ei roi i bobl eraill... Ysbryd Glân sy'n ein symud ni o 'Fi' er mwyn ein hagog i 'Ni' y gymuned: derbyn er mwyn gallu rhoi. Nid ni sydd yn y canol: rydym ni'n offeryn y rhodd honno i bobl eraill'*

Edrych! Dw i yma! Dw i'n sefyll wrth y drws ac yn curo. Os bydd rhywun yn fy nghlywed i'n galw ac yn dod i agor y drws, dof i mewn i rannu pryd o fwyd gyda nhw.

Drwy fyw gan garu'n gilydd, sy'n nodweddiadol o'r Efengyl, gall Cristnogion fod yn dystion i bresenoldeb Duw mewn hanes.

Mewn ardal lle'r oedd llawer o fewnfudwyr, clywodd rhywun 'rywun yn curo'r drws'. Dyma stori Delia: *'Roedd yn brynhawn Sul poeth ac roedd nifer dda o famau a phlant yn eistedd ar y palmant y tu allan i fy nghaffi. Roedd y plant yn crio am eu bod eisiau bwyd. Gofynnais iddyn nhw i gyd ddod i mewn a dywedais y byddai bwyd ar gael i'r plant am ddim. Roedd eu mamau'n teimlo embaras am nad oedd ganddyn nhw arian, ond roeddwn i'n benderfynol o'u bwydo a derbynion nhw'r cynnig. Dyna ddechrau'r cyfan ac erbyn hyn mae fy nghaffi wedi troi'n gaffi'r fewnfudwyr, gyda'r rhan fwyaf ohonyn nhw'n Fwslimiaid. Mae llawer ohonyn nhw'n fy ngalw yn "Mummy Africa". Yn raddol, peidiodd y bobl oedd yn arfer bod yn gleientiaid â dod. Felly mae'r ystafell lle'r oedd y bobl hyn yn chwarae gemau bwrdd erbyn hyn yn ystafell i'r plant ysgrifennu a chwarae, ac mae lle bach i newid babanod, er mwyn i'r mamau allu gorffwys. Ambell waith mae'n ystafell ddosbarth ar gyfer gwersi Eidaleg.*

Wnes i ddim mynd ati'n fwriadol i newid fy nghwsmeriaid – ond doeddwn i ddim yn gallu anwybyddu'r fewnfudwyr. Diolch iddyn nhw rwyf i wedi cyfarfod â llawer o bobl a sefydliadau sy'n fy nghefnogi ac yn fy nghadw i fynd. Pe bawn i'n cael fy amser yn ôl, byddwn i'n gwneud yr un peth eto. I fi, yr hyn sy'n bwysig yw RHOI!'

Caiff pob un ohonom ein gwahodd i groesawu'r Arglwydd sy'n curo ar ein drws er mwyn i ni gyda'n gilydd allu mynd allan at ein cymdogion.

Bydd presenoldeb yr Arglwydd yn ein bywydau'n tyfu'n gryfach.

Awgrym am Fyfyrddod:

Christ will be my cloister

O'r gyfrol:

Essential Writings

Tudalen 102

New City

London 2007

Y mis nesaf

Byddwch yn llawen bob amser am eich bod yn perthyn i'r Arglwydd (Philipiaid 4: 4)